WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 246A2014



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Helen Keatley dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth sicrhau gwelliant yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth ac yn cydnabod yr angen i gyflymu gwelliannau mewn addysg 7

Mae gan y Cyngor ddiwylliant o hunanwerthuso a arweiniodd at ddarlun teg a chytbwys o'i berfformiad yn 2012-13 11

Er gwaethaf heriau ariannol sylweddol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo gynlluniau cadarn ar gyfer gwella 18

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau priodol i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 20

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 21

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am ardal Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cyngor 22

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 23

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 25

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ac ar waith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13 a'i waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14. Gan ystyried y rhain, gall yr Archwilydd Cyffredinol benderfynu a fydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Canfuom fod y Cyngor, yn 2012-13, wedi gwneud cynnydd da wrth sicrhau gwelliant yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth ac yn cydnabod yr angen i gyflymu gwelliannau mewn addysg ac ymdrin â chwynion. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi llenwi swyddi gwag ymysg y cyfarwyddwyr corfforaethol ac yn symleiddio'r strwythur uwch reoli;
- mae'r cysylltiad rhwng cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau yn y tymor canolig wedi cael ei gryfhau;
- mae trefniadau rheoli perfformiad yn parhau i gael eu gwella;
- cyflawnodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i amcanion ar gyfer 2012-13 a mireiniodd ei drefniadau ymhellach ar gyfer ysgogi gwelliant o 2013 ymlaen;
- barnodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd rhesymol, er gwaethaf newidiadau arwyddocaol ymysg yr uwch reolwyr a chyfnod hir o ansicrwydd;
- nododd Comisiynydd y Gymraeg welliant parhaus yn y ffordd y gweithredir Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor; a
- nododd Ombwdsmon Cymru fod nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor wedi gostwng.

3 Canfuom hefyd fod y Cyngor wedi sefydlu diwylliant o hunanwerthuso a arweiniodd at ddarlun teg a chytbwys o'i berfformiad yn 2012-13, er bod yna feysydd i'w gwella. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a gweithredodd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- cafodd trefniadau sefydledig i adolygu perfformiad eu mireinio ymhellach yn ystod 2013;
- mae perfformiad y Cyngor ar draws amrywiaeth o wasanaethau wedi gwella ers 2011-12, ond mae anghysonderau o ran pa mor dda mae'r Cyngor yn casglu ei wybodaeth am berfformiad;

- mae'r Archwilydd Penodedig yn barnu bod y Cyngor wedi cynhyrchu cyfrifon ariannol boddhaol;
- nid oedd perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu budd-dal tai wedi gwella yn 2012-13 o'r flwyddyn flaenorol, ond mae gwybodaeth ddiweddar yn dangos gwelliannau sylweddol yn ei amserau prosesu;
- adroddodd AGGCC fod y Cyngor wedi gwella'r ddarpariaeth i blant ifanc ac ôl-ofal i bobl ifanc ar ôl 16 oed, ond mae heriau o hyd o ran tlodi plant a'r ddarpariaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal;
- mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu trefniadau mewn addysg yn dilyn arolygiad gan Estyn yn 2012 ond mae'n dal i fod islaw cyfartaledd Cymru mewn nifer o ddangosyddion strategol cenedlaethol (DSC); ac
- mae'r Cyngor yn cydnabod bod yna wendidau yn ei drefniadau ar gyfer cydweithio a gweithio gyda phartneriaethau'r trydydd sector.

4 Er gwaethaf heriau ariannol sylweddol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo gynlluniau cadarn ar gyfer gwella. Daethom i'r casgliad hwn trwy ganfod:

- bod *Cynllun Corfforaethol 2013-2017* y Cyngor yn cynnwys y meysydd mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n ymdrin â hwy; a
- bod gan y Cyngor *Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2013-2017* fanwl sy'n cefnogi rheoli ariannol effeithiol yn ystod cyfnod o gyfyngiad ariannol sylweddol.

5 Gan ystyried y sylwadau uchod, rydym yn barnu bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau priodol i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella eu gwasanaethau[1]. Gan gynnwys cyfraniadau oddi wrth arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), AGGCC a Chomisiynydd y Gymraeg, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr hyn mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n mynd ati. Mae hefyd yn cynnwys hunanasesiad y Cyngor ei hun o'r cynnydd mae'n barnu ei fod wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf ar y Cyngor yn gynnar yn 2013.

7 Rydym yn casglu ein tystiolaeth o'n hadolygiadau o berfformiad y Cyngor a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn, a chyda gwybodaeth a rennir gydag arolygiaethau eraill Cymru. Nid ydym wedi cwblhau adolygiad blynyddol llawn o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor eleni.

8 Yn olaf daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wella ei drefniadau a'i wasanaethau ar gyfer 2014-15.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol gymryd camau, gan ddibynnu pa mor ddifrifol yw'r problemau:

- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd yn unol ag amserlen gytunedig;
- gwneud argymhellion mwy ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'r sefyllfa'n fwy difrifol, ac mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- ar gyfer problemau sydd hyd yn oed yn fwy sylfaenol ddifrifol, gall gynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; a
- phan fetho popeth arall, argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Yn 2013 gwnaethom gynigion ar gyfer gwella'r ffyrdd yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda'r trydydd sector i gefnogi adolygiad yr oedd y Cyngor yn ei gyflawni o'i drefniadau; ymdrinnir â'r rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

11 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

# Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth ac yn cydnabod yr angen i gyflymu gwelliannau mewn addysg

## Mae'r Cyngor wedi llenwi swyddi gwag ymysg y cyfarwyddwyr corfforaethol ac yn symleiddio'r strwythur uwch reoli

12 Ym mis Mai 2013 adroddasom fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei amcanion gwella a'i fod yn mireinio ei ddull o werthuso perfformiad. Nododd adroddiad 2013 hefyd yr heriau allweddol yr oedd angen i'r Cyngor eu rheoli, oedd yn cynnwys yr angen i ddatrys swyddi gwag ar lefel cyfarwyddwyr corfforaethol ac, o gofio'r tebygrwydd y bydd heriau ariannol parhaus, cryfhau'r aliniad rhwng cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau.

13 Erbyn mis Tachwedd 2013 roedd y Cyngor wedi penodi ei uwch dîm rheoli newydd gan sicrhau atebolrwydd a chyfrifoldeb clir ar lefel uwch. Ym mis Chwefror 2014 cytunodd y Cyngor hefyd i ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i adolygu trefniadau uwch reoli ymhellach, gyda'r bwriad o sefydlu strwythur dros dro erbyn mis Ebrill 2014 sy'n rhoi digon o sylw i'r heriau mae Pen-y-bont ar Ogwr yn eu hwynebu, yn costio llai na'r strwythur presennol, ac yn cymryd i ystyriaeth ad-drefnu posibl ym maes llywodraeth leol.

## Mae'r cysylltiad rhwng cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau yn y tymor canolig wedi cael ei gryfhau

14 Roedd y broses cynllunio cyllideb a arweiniodd at fabwysiadu *Strategaeth Ariannol Tymor Canolig* y Cyngor ym mis Chwefror 2014 yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r cyllid sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau ac amcanion corfforaethol cysylltiedig. Mae hyn wedi galluogi aelodau i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am flaenoriaethau wrth setlo cyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 ac yn sefydlu sylfaen gref ar gyfer rheoli ariannol a rheoli gwasanaethau yn y dyfodol.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad yn parhau i gael eu gwella

15 Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi parhau i ddatblygu yn y flwyddyn ddiwethaf. Cyhoeddodd y Cyngor ei *Fframwaith Rheoli Perfformiad* ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r ddogfen hon yn esbonio prosesau a gweithdrefnau'r Cyngor a rolau a chyfrifoldebau rheolwyr yn y broses.

16 Yn ogystal â rhoi cyfeirbwynt cyffredin ar gyfer prosesau a gweithdrefnau, mae'n cynnwys disgwyliadau ynghylch arddull ac ymddygiad rheolwyr i gefnogi'r broses o ddatblygu diwylliant cryf o hunanasesu ymhellach. Cyfeirir eto, yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, at ein dadansoddiad o reoli perfformiad yn ymarferol.

## Cyflawnodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i amcanion ar gyfer 2012-13 a mireiniodd ei drefniadau ymhellach ar gyfer ysgogi gwelliant, mewn meysydd fel addysg, o 2013 ymlaen

17 Gosododd y Cyngor naw amcan gwella iddo ef ei hun ar gyfer 2012-13 a chyhoeddodd ei asesiad o'i berfformiad ym mis Hydref 2013. Wrth osod ei amcanion esboniodd y Cyngor hefyd y mesurau y byddai'n eu defnyddio i farnu ei lwyddiant. Gan ddefnyddio'r mesurau hyn fel ei gyfeirbwynt, adroddodd ei fod:

- wedi cyflawni pedwar o'i amcanion gwella 'yn llawn';
- wedi cyflawni pedwar o'i amcanion gwella 'gan fwyaf'; ac
- wedi cyflawni un o'i amcanion gwella 'yn rhannol'.

18 Mae esbonio mesurau llwyddiant yn ffactor pwysig – mae sicrhau mai hwy yw'r mesurau priodol a gwerthuso pa mor dda maent wedi cael eu cyflawni yn hanfodol wrth asesu effaith leol ac ysgogi gwelliant. I raddau helaeth, cytunodd ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad â'i gasgliadau. Nododd ein hadolygiad hefyd rywfaint o le i wella. Efallai bod dweud bod amcan wedi cael ei 'gyflawni'n llawn' yn asesiad teg wrth edrych ar fesur unigol, ond mae angen ystyried y cyd-destun ehangach hefyd. Mae'r Cyngor wedi cymryd hyn i ystyriaeth wrth fabwysiadu ei flaenoriaethau a'i fesurau ar gyfer 2013 ymlaen.

19 Er enghraifft, ar gyfer 2012-13 dywedodd y Cyngor ei fod wedi 'cyflawni'n llawn' y mesurau a fabwysiadwyd mewn perthynas â'i amcan i 'helpu'r holl blant a phobl ifanc i gyflawni cyrhaeddiad uwch trwy wella cyfleoedd dysgu a'u gwneud yn fwy hygyrch'. Dangosodd un mesur, sef data am gyrhaeddiad addysgol disgyblion mewn ysgolion[2], welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gan wella o 77.1 y cant i 80.6 y cant) ac mewn termau cyffredinol, digon teg oedd yr asesiad gan y Cyngor bod ei ganlyniad cynlluniedig wedi cael ei gyflawni. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r un canlyniadau ar gyfer gweddill Cymru, er ei fod wedi gwella, roedd cyrhaeddiad islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 83.3 y cant, a symudodd y Cyngor o'r 19eg safle i'r 18fed o'r 22 cyngor yng Nghymru. Y perfformiad gorau yng Nghymru ar gyfer y dangosydd hwn oedd 86.4 y cant y flwyddyn honno. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i fynd i'r afael â hyn ac wedi cryfhau'r mesurau yn ei *Gynllun Corfforaethol 2013-2017*, er enghraifft trwy anelu at gyfradd gwella gyflymach a chyflwyno mesurau cysylltiedig sy'n rhoi sylw i gynnydd ar gyfnodau dysgu cynharach.

2 EDU/003 Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd fel y penderfynwyd gan asesiad athro.

## Barnodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd rhesymol, er gwaethaf newidiadau arwyddocaol ymysg yr uwch reolwyr a chyfnod hir o ansicrwydd

20 Mae AGGCC yn cyhoeddi adolygiad a gwerthusiad blynyddol o wasanaethau cymdeithasol y Cyngor sy'n nodi'r meysydd allweddol o gynnydd yn y flwyddyn flaenorol a meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad mwyaf diweddar am y Cyngor ym mis Hydref 2013 a gellir ei weld ar http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/publications/131028bridgendcy.pdf

21 Barnodd AGGCC, o ran gwasanaethau i oedolion, fod y gwaith sy'n cael ei wneud drwy ailfodelu bwrdd y rhaglen gofal cymdeithasol i oedolion wedi galluogi'r Cyngor i nodi meysydd i'w datblygu, neilltuo tasgau a monitro cynnydd yn erbyn ystod eang o ddatblygiadau i'r gwasanaethau. Roedd y broses hon yn sicrhau bod gwasanaethau'n gwella ar draws y gwasanaethau i oedolion. Roedd trefniadau comisiynu a chontractio cryf ar waith ynghyd ag ymagwedd gadarn tuag at ddiogelu oedolion. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ysgogwr allweddol yn y cydweithio sy'n digwydd yn rhanbarth Bae'r Gorllewin.

22 O ran gwasanaethau i blant, nododd AGGCC fod gwelliant yn y perfformiad wedi parhau er gwaethaf nifer uchel, a nifer cynyddol, o blant sy'n derbyn gofal. Roedd nifer o brosiectau ar waith i ymateb i'r her a ddaeth yn sgil y cynnydd hwn gan gynnwys gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal a chynyddu nifer ac ystod y lleoliadau lleol sydd ar gael. Bydd llwyddiant y mentrau hyn yn allweddol i welliant cyffredinol ansawdd y gwasanaeth i blant a phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y mater hwn ac wedi'i dargedu fel maes ar gyfer gwella yn 2014-15.

23 O ran y meysydd datblygu a nodwyd yn 2012 daeth AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor 'wedi gwneud cynnydd da o ran ymdrin â meysydd datblygu'r llynedd ac mae wedi eu gwau i'w amcanion ar gyfer gwella. Ymatebodd y gwasanaethau i blant hefyd yn gadarnhaol i'r arolygiad o'u trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac mae ganddynt gynlluniau gweithredu clir ar waith'.

## Nododd Comisiynydd y Gymraeg welliant parhaus yn y ffordd y gweithredir Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor

24 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

25 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb cynghorau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

26 Mae'r gwaith o ddatblygu gwefan y Cyngor yn parhau ac ar ôl i system rheoli cynnwys newydd gael ei chyflwyno, mae tudalennau Saesneg yn cael eu dal yn ôl hyd nes bod y tudalennau Cymraeg cyfatebol yn barod. Yn ychwanegol at y datblygiad hwn, mae microwefannau'r Cyngor, sy'n ymwneud ag atyniadau yn ardal y Cyngor, yn gwbl ddwyieithog. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddenu siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi rheng flaen. Mae cynllun wedi cael ei ddatblygu i benodi prentis i weithio yn y Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Cyngor yn ystyried ymweld ag ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg yn y sir i hyrwyddo prentisiaethau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu eu cytundebau trydydd parti yn nhermau gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Anogir darparwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ac i gynllunio gwasanaethau er mwyn hwyluso darpariaeth Gymraeg. Mae gwaith cychwynnol wedi nodi bod yna staff sy'n fodlon ymateb i ddefnyddwyr gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cyflawni archwiliad arall ar gyfer 2013-14 ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, er mwyn deall cydymffurfiaeth â Deddf yr Iaith Gymraeg yn well ar gyfer yr holl wasanaethau sydd wedi'u comisiynu. Bydd hyn yn adeiladu ar yr archwiliad llinell sylfaen a gyflawnwyd yn 2012-13, sydd â'r nod o barhau i hybu'r Gymraeg ac i gynllunio gwasanaethau er mwyn hwyluso darpariaeth Gymraeg.

## Nododd yr Ombwdsmon dros Gymru fod y nifer o gwynion yn erbyn y Cyngor wedi lleihau

27 Mae Ombwdsmon Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi math a nifer y cwynion gan y cyhoedd yn erbyn sefydliadau yn y sector cyhoeddus a sut y maent yn ymdrin â'r cwynion.

28 Yn y Cyngor, roedd nifer y cwynion a gafwyd ac yr ymchwiliodd Ombwdsmon Cymru iddynt wedi gostwng o gymharu â 2011-12. Cafwyd 24 o gwynion, oedd yn dal i fod islaw cyfartaledd Cymru (36). Roedd y mwyafrif o'r cwynion yn ystod 2012-13 yn ymwneud â chyllid a threthi.

## Mae gan y Cyngor ddiwylliant o hunanwerthuso a arweiniodd at ddarlun teg a chytbwys o'i berfformiad yn 2012-13

29 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad ar ei berfformiad yn 2012-13 erbyn 31 Hydref 2013. Mae adroddiad y Cyngor ar gael ar ei wefan ar: http://www1.bridgend.gov.uk/media/181528/adroddiad_blynyddol_2012_13.pdf

30 Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth a chyhoeddi canllawiau y mae'n rhaid i bob cyngor eu dilyn wrth gyhoeddi'r fath wybodaeth. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac wedi ufuddhau i'r canllawiau; mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi ei gasgliadau.

31 Er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i ddod i gasgliad terfynol, rydym yn cyflawni asesiad o'r adroddiad a gyhoeddir gan y Cyngor ac yn rhoi prawf ar sampl o'r datganiadau a wneir a'r data a ddefnyddir gan y Cyngor. Mae'r asesiad hwn yn penderfynu a yw'r adroddiad yn cyflwyno darlun teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor. Yn yr adran hon rydym yn adrodd ar y casgliadau sy'n deillio o'n hasesiad ac yn rhoi barn ar y ffordd mae'r Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad.

### Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur a gweithredodd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

32 Cymeradwyodd a chyhoeddodd y Cyngor ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13* (yr Adroddiad) cyn y terfyn amser statudol sef 31 Hydref 2013. Canfuom fod yr Adroddiad yn gwbl hygyrch i'r cyhoedd ac ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor. Mae'r Adroddiad hefyd ar gael fel copi papur o wneud cais ac mae crynodeb dwyieithog wedi cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu ymysg gwahanol leoliadau'r cyngor.

33 Daethom i'r casgliad hefyd fod yr Adroddiad yn rhoi darlun teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor yn 2012-13 gan gynnwys manylion ei berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol. Mae'r Adroddiad yn nodi'r ffyrdd mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio a defnyddiodd enghreifftiau i ddarlunio canlyniadau rhai o'r enghreifftiau hyn o gydweithio.

### Cafodd trefniadau sefydledig i adolygu perfformiad eu mireinio ymhellach yn ystod 2013

34 Mae gan y Cyngor broses adolygu perfformiad sydd wedi'i hen sefydlu. Ar lefel gorfforaethol mae Asesiad Perfformiad Corfforaethol yn cael ei gyflawni bob tri mis. Yn bresennol yn yr Asesiad Perfformiad Corfforaethol mae aelodau'r cabinet, y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr corfforaethol gyda chymorth gan y timau gwella perfformiad corfforaethol a chyllid.

35 O arsylwi ar y cyfarfodydd hyn gallwn gadarnhau eu bod yn cymryd golwg cyfannol ar berfformiad ar draws y Cyngor; yn nodi cyfleoedd 'trawsbynciol' rhwng gwasanaethau a chyfarwyddiaethau; â rheolaeth ddigonol ar faterion ariannol sy'n effeithio ar fwy nag un maes gwasanaeth; ac yn rheoli risgiau a goblygiadau o ran adnoddau. Mae'r Asesiad Perfformiad Corfforaethol hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o herio perfformiad gwael a chanfod cyfleoedd i wella.

36 Mae hefyd adolygiad systematig o wasanaethau ar lefel cyfarwyddiaethau ac ar lefel weithredol. O fis Medi i fis Hydref 2013 arsylwodd staff o Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG ar gyfarfodydd adolygu perfformiad wedi'u hamserlennu ar lefel cyfarwyddiaethau ac ar lefel timau gwasanaeth. Diben y gwaith arsylwi oedd asesu'r trefniadau presennol, a chanfod arferion cadarnhaol ac unrhyw botensial i wella.

37 Canfu'r gwaith arsylwi arferion cadarnhaol gan y rhan fwyaf o'r timau rheoli (gweler Arddangosyn 1). Cafodd ein casgliadau a'n negeseuon allweddol eu cyflwyno i'r holl reolwyr ym mis Rhagfyr 2013 mewn gweithdy a lansiodd ddogfen *Fframwaith Rheoli Perfformiad* y Cyngor oedd wedi'i diweddaru. Cynigiodd y gweithdy hefyd fodd i drafod sut y gellid lledaenu arferion cadarnhaol yn ehangach a mireinio systemau ymhellach

38 Cyfunodd y *Fframwaith Rheoli Perfformiad* ddisgrifiad o'r arferion presennol a nododd ddisgwyliadau clir yn nhermau'r broses ac yn nhermau rolau'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y broses a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfeirbwynt allweddol i'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y broses adolygu perfformiad. Gellir gweld y ddogfen ar wefan y Cyngor: www1.bridgend.gov.uk/media/188158/pmf-final-for-publication-dec-2013-.pdf.

### Arddangosyn 1 - Arferion da ym maes gwerthuso perfformiad

**Cyflawnodd y rhan fwyaf o'r timau rheoli waith adolygu perfformiad effeithiol**

Canfu arsylwadau ar waith rheolaidd i adolygu perfformiad, a gyflawnwyd gan dimau rheoli gwasanaethau, amrywiaeth o arferion cadarnhaol oedd yn ysgogi gwelliant ac yn sicrhau canolbwyntio ar yr hyn oedd yn bwysig. Gwelwyd y timau'n:

- Cymryd i ystyriaeth amrywiaeth o wybodaeth berthnasol - yn ymdrin â pherfformiad cyffredinol mewn perthynas â blaenoriaethau corfforaethol; materion yn ymwneud â staffio gan gynnwys lefelau absenoldeb a thracio'r ffordd y diwallir anghenion hyfforddiant/datblygiad; adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gwariant a rhagweld refeniw/cyfalaf.
- Asesu'r risgiau presennol i ganlyniadau perfformiad a 'sganio'r gorwel' er mwyn paratoi ar gyfer newid disgwyliedig.
- Gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar atebion a chanfod lle y gellid gwella trefniadau rhwng gwasanaethau er mwyn cefnogi gwell canlyniadau.

## Mae perfformiad y Cyngor ar draws amrywiaeth o wasanaethau wedi gwella ers 2011-12, ond mae anghysonderau o ran pa mor dda mae'r Cyngor yn casglu ei wybodaeth am berfformiad

39 Gellir cymharu perfformiad y Cyngor â pherfformiad y 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru trwy ddefnyddio 30 DSC. O gymharu â'r llynedd, mae perfformiad y Cyngor wedi gwella'n gyffredinol ar draws nifer o wasanaethau, ac mae bron 50 y cant o'i DSC yn dangos gwelliant. Fodd bynnag, mae 25 y cant wedi gwaethygu.

40 Yn awr mae 17 o'r DSC yn dangos bod y Cyngor yn perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru, sy'n well na ffigur y flwyddyn flaenorol, sef naw. Fodd bynnag, mae'r un nifer o DSC â'r llynedd, sef 12, yn dangos bod perfformiad y Cyngor islaw cyfartaledd Cymru.

41 Mae dibynadwyedd data perfformiad yn bwysig gan ei fod yn galluogi'r Cyngor i fesur ei gynnydd a darparu gwybodaeth a thystiolaeth gadarn ynghylch a yw'n cyflawni ei amcanion gwella ai peidio.

42 Cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o'r ffordd mae'r Cyngor yn gwirio dibynadwyedd ei ddata, er mwyn asesu a yw'n dewis y mesurau a thargedau iawn; yn edrych ar ei ddulliau o gasglu, prosesu a dadansoddi'r data; ac yn olaf, a roddir adroddiadau ar y canlyniadau i'r bobl iawn, mewn ffordd ddefnyddiol ac adeiladol.

43 Edrychasom ar y ffordd roedd y Cyngor yn casglu'r DSC canlynol: 'Canran yr anheddau sector preifat a fu'n wag am fwy na chwe mis ac a ailfeddiannwyd yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol'; a 'chanran yr (asesiadau) o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos'. Hefyd, un Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ar gyfer 'canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn'. Yn olaf, edrychasom ar dri o fesurau perfformiad lleol y Cyngor ei hun, oedd yn monitro: 'maint y gwastraff bioddiraddadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi'; 'nifer y cyfranogwyr sy'n defnyddio llwybrau cerdded gwell'; a 'nifer yr ymholiadau ysgrifenedig a gafwyd gan y Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid ac a gafodd eu hateb o fewn pum diwrnod gwaith'.

44 Canfuom fod y systemau casglu ar gyfer dau o'r chwe system data mesurau perfformiad / dangosyddion yn anghywir weithiau. Felly daethom i'r casgliad:

- Er bod gan y Cyngor systemau sefydledig ar waith i gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata, mae anghysonderau yn y ffordd mae'r staff yn defnyddio'r systemau.
- Mae rhai o'r dangosyddion perfformiad yn anghywir neu nid ydynt yn cydymffurfio â'r diffiniadau; roedd hyn oherwydd bod data amhriodol yn cael eu casglu i ddilysu dangosydd neu fod data sylfaenol yn cael eu colli, a olygai na allai'r Cyngor fesur a fu unrhyw welliant.

- Nid oedd gan y Cyngor system fewnol ffurfiol ar waith i wirio samplau o fesurau perfformiad neu ddangosyddion yn rheolaidd. Mae gan y Cyngor gynlluniau i gychwyn proses o'r fath yn 2014.

45 Cynigiasom y dylai'r staff data perfformiad ystyried hyfforddiant diweddaru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i fod yn fwy cywir a gofalus wrth gynnal a chadw'r systemau. Mae'r Cyngor wedi ystyried y cynnig hwn ac wedi cynnwys gwiriadau dilysu data a sicrhau ansawdd yn y *Fframwaith Rheoli Perfformiad* newydd a'r System Rheoli Perfformiad newydd.

## Mae'r Archwilydd Penodedig yn barnu bod y Cyngor wedi cynhyrchu cyfrifon ariannol boddhaol

46 Yn ddiweddar rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor ac ar sail hyn barn yr Archwilydd Penodedig yw bod y datganiadau ariannol yn foddhaol at ei gilydd. Ni chodwyd unrhyw bryderon am agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol y Cyngor, ni ddaethpwyd ar draws unrhyw anawsterau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad ac ni chafwyd unrhyw drafodaeth na gohebiaeth gyda rheolwyr am unrhyw faterion arwyddocaol yr oedd angen adrodd arnynt i'r Pwyllgor Archwilio.

47 Nododd yr Archwilydd Penodedig hefyd fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cwblhau'r prosiect gwerthuso swyddi er mwyn galluogi'r Cyngor i gynllunio'n effeithiol ei gyllideb cyflogau yn y dyfodol a'r galwadau ar ei adnoddau yn y tymor canolig.

48 Mae llythyr yr Archwilydd Penodedig yn ymddangos yn Atodiad 3 ac yn rhoi mwy o fanylion.

## Nid oedd perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu budd-dal tai wedi gwella yn 2012-13 o'r flwyddyn flaenorol, ond mae gwybodaeth ddiweddar yn dangos gwelliannau sylweddol yn ei amserau prosesu

49 Bob blwyddyn rydym yn adolygu'r prosesau y mae'r Cyngor yn gweinyddu budd-dal tai drwyddynt a'r llynedd dywedasom fod angen i'r Cyngor weithredu i wella ei berfformiad mewn meysydd allweddol. Hynny yw, cynyddu nifer yr hawliadau newydd a gaiff eu prosesu cyn pen 14 diwrnod; lleihau nifer yr hawliadau nad oes penderfyniad arnynt am fwy na 50 o ddiwrnodau; a lleihau'r amser a gymerir i ymdrin â cheisiadau y mae angen eu diwygio.

50 Yn ystod ein hadolygiad, canfuom nad oedd perfformiad y Cyngor wedi gwella, ond ers hynny rydym wedi nodi bod y Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w brosesau sydd wedi cryfhau ei berfformiad:

- Nid oedd canran yr hawliadau newydd y penderfynir arnynt cyn pen 14 diwrnod wedi gwella yn 2012-13, gan gymryd 23 diwrnod yn hytrach na 21 yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gall y Cyngor ddangos gwelliant yn ystod y cyfnod o Ebrill 2013 ymlaen, ac mae'r ffigurau cyfredol yn dangos y cymerir 16.5 diwrnod ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd.

- Nid oedd canran yr hawliadau newydd nad oes penderfyniad arnynt am fwy na 50 o ddiwrnodau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gwella: roedd wedi codi o chwech y cant yn 2011-12 i 10 y cant yn 2012-13. Mae ffigurau perfformiad cyfredol yn fwy calonogol ac mae'r Cyngor yn gobeithio lleihau nifer yr hawliadau nad oes penderfyniad arnynt i lai na phump y cant.

- Naw diwrnod oedd yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau am fudd-dal tai gyda newidiadau i amgylchiadau yn 2011-12; gwaethygodd hyn i 13 diwrnod yn 2012-13. Ers hynny mae'r Cyngor wedi dweud ei fod yn cymryd ychydig dros naw diwrnod i brosesu'r ceisiadau hyn ar hyn o bryd, ond mae'n gobeithio lleihau'r amser hwn yn fwy byth erbyn diwedd Mawrth 2014.

51 Bydd ein hadolygiad y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar y ffordd y cyflawnodd y Cyngor y gwelliannau hyn ac a ydynt yn gynaliadwy.

## Adroddodd AGGCC fod y Cyngor wedi gwella'r ddarpariaeth i blant ifanc ac ôl-ofal i bobl ifanc ar ôl 16 oed, ond mae heriau o hyd o ran tlodi plant a'r ddarpariaeth i blant sy'n derbyn gofal

52 Yn ei *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013*, nododd AGGCC fod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i arolygiad AGGCC o'i drefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn 2012, a bod ganddo gynlluniau gweithredu clir ar waith erbyn hyn i fynd i'r afael â'r meysydd lle'r oedd angen gwella.

53 At hynny, nododd AGGCC fod perfformiad y gwasanaethau i blant wedi parhau i wella; hyn er gwaethaf nifer fawr a chynyddol o blant sy'n derbyn gofal a'r ffaith bod y cynnydd hwn wedi rhoi pwysau sylweddol ar y timau o ran eu llwyth gwaith.

54 Mae'r Cyngor wedi dechrau nifer o brosiectau i ymdopi â'r cynnydd hwn, ond mae'n cydnabod bod llawer yn dibynnu ar ei allu i gyflenwi'r prosiectau hyn yn llwyddiannus er mwyn cynnal a hyd yn oed gwella ansawdd y gwasanaethau i'r nifer gynyddol o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Er enghraifft, cododd nifer yr achosion 12 y cant o 345 yn 2012, i 387 ar 31 Mawrth 2013. Cynyddodd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant hefyd o 131 i 161 yn yr un cyfnod, cynnydd o 23 y cant.

55 Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i ehangu ystod rhai o'i wasanaethau i blant agored i niwed, megis ehangu rhaglen Dechrau'n Deg i blant 0 – 3 oed – gan ymestyn cwmpas y rhaglen i gynnwys mwy o blant a chwblhau mannau newydd yn ysgolion cynradd Bracla, Plasnewydd a Chefn Glas.

56 Yr her fwyaf i'r Cyngor yw darparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r perfformiad wedi gwaethygu ers y llynedd, gyda chynnydd yn nifer y plant â thri neu fwy o leoliadau a newidiadau ysgol. Mae'r Cyngor yn agor unedau gofal preswyl newydd er mwyn sicrhau y gellir gofalu am blant o fewn ffiniau'r sir, ond nid yw hyn wedi cael effaith eto ar y nifer sy'n gorfod chwilio am ofal y tu allan i'r ffiniau a'r costau ychwanegol cysylltiedig.

## Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu trefniadau mewn addysg yn dilyn arolygiad gan Estyn yn 2012 ond mae'n dal i fod islaw cyfartaledd Cymru mewn nifer o ddangosyddion strategol cenedlaethol

57 Arolygodd Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, wasanaeth addysg y Cyngor ddiwethaf yn 2012 pan farnodd fod y gwasanaeth yn 'ddigonol' gyda rhagolygon gwella 'digonol'. Gellir gweld copi o Adroddiad Arolygu Estyn ar ei wefan ar www.estyn.gov.uk. Gwnaeth Estyn nifer o argymhellion y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau gwelliannau. Mae'r Cyngor yn destun ymweliadau monitro gan Estyn i adolygu cynnydd er nad oes adroddiadau ar ganlyniadau'r ymweliadau hyn fel mater o drefn.

58 Mae'r Cyngor, er ei fod yn dangos gwelliant mewn rhai DSC addysg, yn dal i fod islaw cyfartaledd Cymru mewn meysydd pwysig fel safonau cyflawniad disgyblion, ac mae'n dal i fod y gwaethaf yng Nghymru am gyhoeddi datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig o fewn 26 wythnos.

## Roedd yna wendidau yn y trefniadau ar gyfer cydweithio a gweithio rhwng y Cyngor a'i bartneriaethau yn y trydydd sector

59 Ym mis Mehefin 2013, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer cydweithio gyda'r trydydd sector. Daethom i'r casgliad, er y gallai ddangos ei fod yn cael gwerth da am arian o'i waith gyda'r trydydd sector:

- nad oes gan y Cyngor strategaeth glir ar sut y bydd y trydydd sector yn ei helpu i gyflawni ei flaenoriaethau;
- nad yw'r Cyngor wedi cynnig tystiolaeth lawn eto o werth gweithio gyda'r trydydd sector, a bod ei waith monitro perfformiad yn anghyson, sy'n llesteirio gallu'r Cyngor i fesur a yw gweithgareddau'n cyflawni'r disgwyliadau; a
- bod gan y Cyngor weithdrefnau a rheolaethau gweithredol ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector sydd, er eu bod yn gwella, yn anghyson a heb fod yn ddigon cadarn bob amser.

60 Gwnaeth yr adolygiad bedwar cynnig ar gyfer gwella:

**Strategaeth y trydydd sector**

C1 Dylai'r Cyngor egluro ei safbwynt ar weithio gyda'r trydydd sector a hybu hwnnw ar draws y sefydliad a chyda'r sector ei hun. Dylai feithrin dealltwriaeth gyda'r sector ynghylch yr hyn mae'r Cyngor ei eisiau a'i angen a'r cyfleoedd posibl yn y dyfodol i helpu i ddatblygu'r farchnad a meithrin cynaliadwyedd.

**Monitro perfformiad**

C2 Dylai'r Cyngor adolygu pob Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda sefydliadau'r trydydd sector, gan drafod gyda'r sefydliad. Dylai trefniadau rheoli ac adrodd ar berfformiad fod yn gymesur â'r cyllid a ddarperir, ond man lleiaf, dylent sicrhau:

- bod y mesurau perfformiad yn dangos y cyfraniad sy'n cael ei wneud i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol;
- bod y targedau'n gadarn, yn ystyrlon a bod y ddwy ochr wedi cytuno arnynt;
- bod y trefniadau adrodd yn addas i anghenion y ddwy ochr; a
- bod adborth ar berfformiad yn broses ddwyffordd.

**Rheoli perthnasoedd gyda chleientiaid**

C3 Dylai'r Cyngor nodi pa sefydliadau mae'n eu diffinio fel rhai sy'n cael lefelau sylweddol o gyllid gan y Cyngor. Yna, ar gyfer pob un o'r sefydliadau a ddiffinnir felly, dylai'r Cyngor enwebu swyddog arweiniol i:

- reoli'r berthynas â'r sefydliad hwnnw;
- bod â throsolwg ar yr holl gyllid a roddir i'r sefydliad gan y Cyngor;
- deall y cyfraniad mae'r sefydliad yn ei wneud i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol; a
- bod yn berson cyswllt i swyddogion godi pryderon ynghylch perfformiad y darparwr.

**Cysondeb dull**

C4 Dylai'r Cyngor nodi agweddau ar ei ymwneud â'r trydydd sector a allai fod yn fwy cyson, megis comisiynu a rheoli perfformiad. Dylai geisio dysgu oddi wrth gydweithwyr, cynghorau eraill, a'r sector ei hun, ynghylch pa ddulliau sy'n gweithio'n dda. Yna dylid defnyddio'r dulliau gorau ar draws y Cyngor.

61 Ar ôl i'n hadolygiad gael ei gyhoeddi ym mis Awst 2013, mae'r Cyngor wedi parhau â'i ymdrechion i wella'r trefniadau gyda'r trydydd sector, ac i lunio camau gweithredu i roi'r cynigion ar waith. Roedd eisoes wedi datblygu grŵp prosiect traws-Gyngor oedd yn cynnwys aelodau o bartneriaid allweddol yn y sector gwirfoddol, fel rhan o adolygiad ehangach o weithgareddau trydydd sector gan y Cyngor. Mae'r grŵp hwn wedi llunio camau gweithredu i fynd i'r afael â'n cynigion. Ers yr adolygiad mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth fanwl ar gyfer pob un o'i berthnasoedd â'r trydydd sector. Erbyn hyn mae ganddo ddealltwriaeth gliriach o ba weithgarwch a sefydliadau mae'r Cyngor yn eu cefnogi a sut mae'r gefnogaeth hon yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol. Mae wedi cytuno ar fformat cyffredin ar gyfer contractau, y bydd yn ei ddefnyddio wrth gomisiynu gweithgarwch gan y trydydd sector ac mae'n bwriadu cynnal adolygiad o bob partneriaeth trydydd sector gan ddefnyddio methodoleg adolygu gyffredin.

# Er gwaethaf heriau ariannol sylweddol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo gynlluniau cadarn ar gyfer gwella

## Mae *Cynllun Corfforaethol 2013-2017* y Cyngor yn cynnwys y meysydd mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n ymdrin â hwy

62 Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, cyhoeddodd y Cyngor ei *Gynllun Corfforaethol 2013-2017* (y Cynllun) oedd yn cynnwys ei amcanion gwella (a elwir blaenoriaethau gwella) yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Cyngor erbyn 30 Ebrill 2013. Cynaliasom archwiliad o'r Cynllun a daethom i'r casgliad ei fod yn cynnwys y meysydd mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n ymdrin â hwy gan ei fod yn cynnwys rhesymau dros ddewis yr amcanion, manylion y trefniadau i helpu'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau, a beth yw'r canlyniadau disgwyliedig.

63 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n effeithiol ag amrywiaeth fawr o bobl a sefydliadau ynghylch cynnwys y Cynllun, gan gynnwys busnesau, partneriaid a'r cyhoedd. Cyhoeddodd y Cyngor yr adborth i'r ymgynghoriad, gan nodi'r pwyntiau neu themâu cyffredinol, a pha gamau a gymerodd i fireinio'r blaenoriaethau.

64 Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r Cyngor wedi parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd trwy awgrymu camau y gall dinasyddion eu cymryd i helpu'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau gwella. Er enghraifft, siopa'n lleol i gefnogi manwerthwyr lleol ac felly gwella'r economi leol a gofyn i fusnesau roi gwybod i sefydliadau addysgol pa sgiliau y byddant yn chwilio amdanynt yn y gweithlu lleol yn y dyfodol.

## Mae gan y Cyngor *Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2013-2017* fanwl sy'n cefnogi rheoli ariannol effeithiol yn ystod cyfnod o gyfyngiad ariannol sylweddol

65 Cyhoeddodd y Cyngor ei *Strategaeth Ariannol Tymor Canolig*, ar gyfer y cyfnod 2013-2017, ym mis Medi 2013, wedi'i seilio ar yr angen i sicrhau bod £35 miliwn yn llai yn cael ei wario dros y tair blynedd nesaf.

66 Edrychodd ein hadroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, o'r enw *Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru*, ar y ffordd mae cynghorau'n rheoli eu harian mewn amgylchiadau economaidd heriol ac yn erbyn cefndir o alw cynyddol am wasanaethau. Mae'n rhaid rheoli pwysau o ran costau ochr yn ochr â phwysau sylweddol o ran y galw am wasanaethau'n ymwneud ag, er enghraifft, plant sy'n derbyn gofal, cynorthwyo'r bobl mae'r dirwasgiad economaidd a diwygio lles wedi effeithio arnynt fwyaf, a'r effaith mae'r boblogaeth sy'n heneiddio'n ei chael ar wasanaethau. Mae llawer o'r gwasanaethau mae cynghorau yn eu darparu'n orfodol/statudol ar hyn o bryd, gan olygu nad oes llawer o le i symud mewn cyllidebau.

67 Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod llawer o gynghorau yng Nghymru'n cael trafferth i reoli toriadau, gan:

- nad oes ganddynt gynlluniau clir a realistig i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau;
- nad yw cynghorau yng Nghymru yn seilio eu cynlluniau strategol ar wybodaeth ariannol gadarn a phriodol yn rheolaidd;

- eu bod wedi gallu ymdrin â'u heriau ariannol a chyflawni eu cynllun cyffredinol, ond y bydd angen trefniadau mwy cadarn wrth i bwysau ariannol gynyddu; ac
- nad yw pob cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'n effeithiol gynnydd wrth gyflawni ei gynlluniau strategol.

68 Er hynny, mae'r Cyngor yn dangos nifer o arferion cadarnhaol yn ei ddull rheoli ariannol yn y tymor canolig.

### Arddangosyn 2 - Arferion cadarnhaol o ran rheoli ariannol yn y tymor canolig

Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei ddull rheoli ariannol yn y tymor canolig trwy:

- Ddatblygu dull mwy cadarn o ragamcanu. Drwy ystyried gwahanol senarios posibl dros y tair blynedd nesaf, mae'r Cyngor yn paratoi nifer o ragolygon a rhagdybiaethau er mwyn paratoi ei drefniadau ariannol yn well i fynd i'r afael ag amrywiaeth o ganlyniadau neu feysydd risg posibl. Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r pwysau o ran costau mae'n eu hwynebu.
- Alinio cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau, fel y gall alinio'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn well â'r trefniadau ariannol cysylltiedig, ac y gall fonitro ac asesu ei berfformiad ariannol yn well yn unol â'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau.
- Cael trafodaethau cynnar ar ble a sut y dylid gwario cyllidebau. Mae'n cynnwys ac yn ymgynghori ag aelodau a rhanddeiliaid ar gam cynnar ac yn rhoi iddynt gyfleoedd rheolaidd i drafod materion a phryderon mewn digon o bryd i ystyried ac ymchwilio i oblygiadau toriadau ar y ffordd y cyflenwir gwasanaethau.

69 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn dal i wynebu heriau ariannol mawr yn y flwyddyn i ddod, er gwaethaf y posibilrwydd o newidiadau sylfaenol i'w strwythur a'r meysydd mae'n gyfrifol amdanynt. Er hynny, mae'r Cyngor wedi dweud y bydd yn parhau i ddarparu ei holl wasanaethau, ond gan geisio eu cyflenwi'n fwy effeithlon, ac i ysgogi gwelliant yn ei feysydd â blaenoriaeth.

70 Roedd angen i'r Cyngor ddarparu ar gyfer diffyg o £24 miliwn ar gyfer y cyfnod o 2013 i 2016, ond yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Mehefin 2013, mae'r swm hwn wedi cael ei newid i £31 miliwn. Mae wedi diwygio ei baratoadau cyllidebol i fynd i'r afael â'r diffyg hwn ac yn bwriadu sicrhau arbedion o £3.7 miliwn yn 2013-14. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgynghori'n helaeth gydag aelodau a rhanddeiliaid allweddol ar ei gyllideb a'i flaenoriaethau, ac mae ei system strwythuredig o adrodd ar berfformiad corfforaethol yn gwella cysylltiadau rhwng cynlluniau corfforaethol (gan gynnwys *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* y Cyngor), cyflenwi gwasanaethau, targedau perfformiad a chyllid gweithredu. Mae'r Cyngor yn gwirio cynnydd ei gynlluniau ariannol yn rheolaidd.

# Mae’r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau priodol i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

71 Ar sail y casgliadau a nodir yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, mae’r Archwilydd Cyffredinol yn barnu bod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur ar gyfer 2014-15. Mae hyn oherwydd ymdrechion y Cyngor i geisio’n ddi-baid i ddatblygu ei drefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn *Adroddiad Gwella Blynyddol* cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am ardal Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cyngor

## Y Cyngor

Gwariodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr tua £316.4 miliwn eleni (2013-14). Mae hyn yn cyfateb i oddeutu £2,336.00 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £36.7 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D i Ben-y-bont oedd £1,296.16 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.9 y cant i £1,346.83 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 79.4 y cant o dai Pen-y-bont yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 54 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 39 aelod o'r blaid Lafur
- 4 aelod Independent Annibynwyr
- 1 aelod o Blaid Cymru
- 1 aelod o'r blaid Geidwadol
- 6 o aelodau Annibynnol
- 3 aelod o blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Darren Mepham yw Prif Weithredwr Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Ness Young yw Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau; Deborah McMillan yw Cyfarwyddwr Corfforaethol Plant; Mark Shephard yw Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau: Susan Cooper yw Cyfarwyddwr Corfforaethol Lles; ac Andrew Jolley yw'r Prif Weithredwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Ben-y-bont ar Ogwr yw:

- Y Gwir Anrh. Carwyn Jones, Pen-y-bont ar Ogwr, Llafur
- Janice Gregory, Ogwr, Llafur
- Peter Black, Bethan Jenkins, Suzy Davies a Byron Davies, Aelodau Rhanbarthol

Yr Aelodau Seneddol dros Ben-y-bont ar Ogwr yw:

- Mrs Madeleine Moon, Etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr, Llafur
- Mr Huw Irranca-Davies, Etholaeth Ogwr, Llafur

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun ar www.bridgend.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Mel Nott
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Annwyl Gynghorydd Nott

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2013.

Dywedodd yr adroddiad hwn nad oedd gennym unrhyw bryderon am yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol, na chawsom unrhyw anawsterau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad ac na fu unrhyw drafodaeth na gohebiaeth gyda rheolwyr am unrhyw faterion arwyddocaol yr oedd angen i ni adrodd arnynt.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu le y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mewn blynyddoedd blaenorol, rwyf wedi sôn am bwysigrwydd cwblhau'r prosiect gwerthuso swyddi er mwyn galluogi'r Cyngor i gynllunio ei gyllideb cyflogau yn y dyfodol yn effeithiol ac i fod yn hyderus ynghylch y galwadau ar ei adnoddau yn y tymor canolig. Rwy'n falch o adrodd bod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn eleni, gyda'r prosiect gwerthuso swyddi'n symud at gael ei gwblhau yn ystod ein blwyddyn archwilio (a chael ei roi ar waith yn ystod 2013-14).

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2013.

Y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 yw £190,000, sy'n unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir



**Darren Gilbert, KPMG LLP**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
21 Tachwedd 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag amcanion gwella penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-17 yn ei gynllun corfforaethol, sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.Bridgend.gov.uk. Cânt eu cyhoeddi yma, ynghyd â'r amcanion gwella blaenorol:

**Amcanion gwella allweddol 2010-2013**

- creu cymunedau diogel a chynhwysol wedi'u hategu gan seilwaith ffisegol effeithiol;
- datblygu ac ategu datrysiadau tai cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer y rheiny sy'n ddigartref neu mewn angen;
- cydweithio gyda phartneriaid i ddiwallu gwahanol anghenion yr holl blant a phobl ifanc a rhoi iddynt y dechrau gorau mewn bywyd;
- helpu'r holl blant a phobl ifanc i gyflawni cyrhaeddiad uwch trwy wella cyfleoedd dysgu a'u gwneud yn fwy hygyrch;
- gwella lles corfforol ac emosiynol trwy hybu ac ategu ffyrdd egnïol o fyw, cyfranogiad a dysgu;
- gweithredu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig effeithiol i ategu annibyniaeth, iechyd a lles;
- rhoi cymorth i'n cymunedau a buddsoddi ynddynt i hybu twf economaidd, adnewyddu ffisegol a chynaliadwyedd;
- rheoli a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a hanesyddol; a
- gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'n hasedau ariannol, technolegol, ffisegol a dynol.

**Blaenoriaethau gwella 2013-2017**

- gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r economi leol;
- gweithio gyda'n gilydd i godi uchelgeisiau a chynyddu cyflawniad addysgol;
- gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar;
- gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol;
- gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw; a
- gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn yr *Adroddiad Blynyddol 2012-13* y gellir ei weld ar: www1.bridgend.gov.uk/media/181528/adroddiad_blynyddol_2012_13.pdf

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk